



Cwestiynau Cyffredin

C. A oes yn rhaid talu ffi i gymryd rhan yn yr Ŵyl?

A. Nac oes. Mae cymryd rhan yng ngweithgareddau Gŵyl Arloesedd Cymru yn drefniant heb fod yn ariannol gyda rhanddeiliaid yr Ŵyl a'u sefydliadau.

C. A wnaiff yr Ŵyl fy helpu i drefnu fy nigwyddiad?

A. Rydym yn annog trefnwyr y gweithgareddau i drefnu eu digwyddiadau eu hunain yn unol â'u fformat a'u harddull eu hunain. Bydd trefnwyr yr Ŵyl yn ceisio helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r gweithgaredd pan fydd yn cael ei nodi ar wefan Gŵyl Arloesedd Cymru.

C. A fydd yr Ŵyl yn atebol am fy ngweithgaredd?

A. Ni fydd yr Ŵyl yn atebol nac yn gyfrifol am y gweithgareddau mae'n eu hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys unrhyw atebolrwydd ariannol i gyflwyno'r gweithgaredd neu warantu cynrychiolwyr. Serch hynny, fe fydd yr Ŵyl yn gwneud popeth o fewn ei gallu i weithredu fel safle porth effeithiol ar gyfer eich gwefan lle bydd modd i gynrychiolwyr gofrestru.

C. Ai fy ngweithgaredd i fydd hwn ynteu a fydd yn cael ei frandio fel gweithgaredd yr Ŵyl?

A. Y trefnwyr fydd yn berchen ar y gweithgaredd ac yn gyfrifol am ei frandio. Efallai y bydd trefnwyr y gweithgaredd cymeradwy a chyfrannog yn dewis defnyddio brand yr Ŵyl ar eu gwefan. Yn sicr, byddant yn cael eu hannog i gysylltu â'r Ŵyl ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd mewnol y trefnwyr.

C. A fydd y cynrychiolwyr yn cofrestru drwy brif wefan yr Ŵyl?

A. Na fyddant, bydd y cynrychiolwyr yn cofrestru ar wefan trefnwyr y gweithgaredd/gwefan y trydydd parti a ddewisir a fydd yn cael ei nodi ar brif wefan yr Ŵyl.

C. Beth fydd yn digwydd ar ôl yr Ŵyl?

A. Bydd gan yr Ŵyl ddiddordeb mewn cael adolygiad (neu adroddiad) o'ch gweithgaredd a allai gael ei gyhoeddi ar y wefan. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw ddeunydd astudiaeth achos cysylltiedig, cyflwyniadau PowerPoint neu ddeunydd electronig/dolenni defnyddiol y byddai modd eu defnyddio ar wefan yr Ŵyl.